**Canllaw Cyflym i Gyfrifo Cyflog Terfynol (i bawb sy'n gadael sydd wedi gwasanaethu cyn 1 Ebrill 2014)**

- ✓ Mae Aelodau â gwasanaeth cyn 1 Ebrill 2014 yn cadw'r ddolen cyflog terfynol (felly mae'r cyfrifiad cyflog terfynol o dan reolau Cynllun 2008 yn ofynnol). (Cofiwch fod goramser yn bensiynadwy ar gyfer y cynllun (CARE) cyfredol ond nad yw'n gymwys yn niffiniad 2008 ac felly ni ddylai gael ei gynnwys yn y cyfrifiad cyflog terfynol.)

- ✓ Cyfanswm cyflog a enillwyd yw cyflog terfynol, ac y cafodd cyfraniadau eu talu ato (neu y tybir eu bod wedi eu talu), yn ystod 365 dydd olaf cyflogaeth. Ar gyfer aelodau rhan amser, y cyflog sy'n cael ddefnyddio yw'r cyflog cyfwerth llawn amser (neu ran amser) *oni bai fod yr aelod yn llawn amser a bod elfennau eraill y cyflog wedi eu talu ar ben cyflog llawn amser, megis wrth gefn, galwadau allan ac ati, ac yn yr achosion hynny dylai'r rhain gael eu hychwanegu at y cyflog llawn amser (ac eithrio goramser, fel yn y pwynt uchod).*

- ✓ Pan na fydd y 365 dydd diwethaf yn rhoi'r ffigwr uchaf neu bod yr aelod wedi cael cwtogiad tâl yn y 10 mlynedd ddiwethaf, gweler * ar dudalen 2.

- ✓ Gellir cael cyfarwyddyd llawn o ganllaw Cyflogres Awdurdodau Llywodraeth Leol yma: https://www.powyspensionfund.org/media/yuipfnk3/lgps-2014-payroll-guide-v4-3c.pdf

Enghraifft 1: Cyflogaeth llawn amser

Mrs T Owen; llawn amser, ymddeolodd ar 31 Awst 2021; talodd bob mis; tâl y 3+ blynedd ddiwethaf oedd:

| | |
|---|---|
| 1 Ebrill 2018 | £21,000 y flwyddyn |
| 1 Ebrill 2019 | £21,500 y flwyddyn |
| 1 Ebrill 2020 | £22,000 y flwyddyn |
| 1 Ebrill 2021 | £22,500 y flwyddyn |

Blwyddyn derfynol:

| | |
|---|---|
| 1 Medi 2020 tan 31 Mawrth 2021 | £22,000 x 7/12 = £12,833.33 |
| 1 Ebrill 2021 tan 31 Awst 2021 | £22,500 x 5/12 = £ 9,375.00 |
| Cyfanswm = | £22,208.33 = Cyflog terfynol |

Enghraifft 2: Cyflogaeth rhan amser

*Yn achos cyflogaeth rhan amser, y cyflog terfynol yw'r tâl a fyddai wedi ei dalu am gyflogaeth llawn amser sengl cyffelyb, felly cyfrifwch fel Enghraifft 1; neu os ydych chi'n defnyddio gwir gyflog rhan amser, gallwch ddefnyddio'r dull isod:*

Mr S Williams; rhan amser; gadawodd 31 Rhagfyr 2021, gweithiodd 20 awr/wythnos allan o 37 wythnos bosibl tan 31 Mawrth 2021, pan gwtogodd i 16 awr/wythnos. Roedd tâl rhan amser fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 1 Ionawr 2021 tan 31 Mawrth 2021 | £2,972.97 gwir gyflog |
| 1 Ebrill 2021 tan 31 Rhagfyr 2021 | £7,297.30 gwir gyflog |

Felly

| | |
|---|---|
| £2,972.97 x 37/20 = | £5,500.00 |
| £7,297.30 x 37/16 = | £16875.01 |
| Cyfanswm = | £22375.01 = Cyflog |

**Pan ddylai cyflog blwyddyn flaenorol gael ei ddefnyddio:*

"Gorau o'r 3 blynedd ddiwethaf"

Ble y byddai'r naill o'r 2 flynedd union blaenorol wedi cynhyrchu ffigwr uwch, yna dylai'r ffigwr hwnnw gael ei ddefnyddio.

neu

Rheoliad 10 neu "Gorau o'r 3 olaf mewn 13"

Pan fydd cyflog pensiynadwy aelod mewn cyfnod cyflogaeth parhaol wedi ei gwtogi neu ei gyfyngu am un o'r rhesymau canlynol:

a) Am fod yr aelod yn dewis cael ei gyflogi gan yr un cyflogwr ar raddfa is neu â llai o gyfrifoldeb;
b) At ddibenion cyflawni cyflog cyfartal mewn perthynas â chyflogai eraill y cyflogwr hwnnw;
c) O ganlyniad i ymarferiad gwerthuso swydd;
d) Oherwydd newid yng nghontract cyflogaeth yr aelod yn arwain at ddarfyddiad cyfyngiad o, neu gwtogiad mewn, taliadau neu fudd-daliadau a enwyd yng nghontract cyflogaeth yr aelod i fod yn enillion pensiynadwy; neu
e) Am fod y gyfradd y gellir cynyddu cyfradd cyflog yr aelod yn cael ei gyfyngu yn y fath fodd fel ei fod yn debygol fod cyfradd pensiwn ymddeol aelod yn cael ei effeithio er gwaeth.

ac os na fyddai'r cwtogiad neu gyfyngiad o ganlyniad i ddod â safle/swydd i ben dros dro, neu ymddeoliad hyblyg, yna gall y person ddewis unrhyw gyflog 3 blynedd pensiynadwy cyfartalog (cyfrifwyd at 31 Mawrth) sy'n disgyn oddi fewn i'r cyfnod o 13 blynedd yn diweddu gyda'i ddiwrnod olaf fel aelod gweithredol.